**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI DYDD IAU, 10 MAWRTH 2016 gynhaliwyd yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi**

**YN BRESENNOL**

**Y Cynghorydd Dewi Owen – Cadeirydd**
**Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones – Is-gadeirydd**

Y Cynghorwyr Mike Stevens (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. David Richardson (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Mr W Bracewell (Partneriaeth Aberdyfi), Mr Dave Williams (Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi), Mr Desmond George (Clwb Hwylio Dyfi), Mr Paul Fowles (Siambr Fasnach Aberdyfi), Mr Nick Dawson (Outward Bound Wales), Mr Nigel Willis (Clwb Cychod Aberdyfi), Mr Huw Evans (Cymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion),

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Mr Llyr B. Jones | - | Uwch Reolwr Economi a Chymuned |
| Mr Barry Davies | - | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Mr William Stockford | - | Harbwr Feistr Aberdyfi |
| Mrs Glynda O'Brien | - | Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu |
| Mrs Mererid Watt | - | Cyfieithydd |

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Gethin Williams (Pwyllgor Ymgynghorol Harwr Abermaw), Mandy Williams-Davies (Aelod Cabinet Economi), Y Cyng. Brian Bates (Bad Achub).

1. **DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o gysylltiad personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

2. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 12 Tachwedd 2015.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

2.1 **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

(a) Eitem 5 (A) – Ffigyrau ymwelwyr i Harbwr Aberdyfi

Ymddiheurwyd nad oedd y ffigyrau uchod wedi eu cynnwys o fewn yr adroddiad gerbron a sicrhawyd y byddir yn eu cylchrhedeg i'r Aelodau yn y dyddiau nesaf. Fodd bynnag, yn y cyfamser nodwyd y ffigyrau isod:

2014 - 53 o gychod wedi ymweld ag Aberdyfi
2015 - 18 cwch wedi ymweld ag Aberdyfi

Nodwyd ymhellach bod y tywydd wedi bod yn anffafriol iawn a hyderir y ceir tywydd gwell y tymor hwn. Diolchwyd hefyd am y pecyn gwybodaeth a ddarparwyd gan Aelodau ar gyfer ymwelwyr ac y byddir yn ceisio annog morwyr i ymweld a'r gwahanol harbyrau o fewn y Sir.

**(b) Rheolaeth Badau Dwr Personol**

Ni ragwelwyd y byddir yn gallu cael llawer mwy o reolaeth yn ardal y Leri serch trafodaeth gyda swyddogion perthnasol o Cyfoeth Naturiol Cymru. Fodd bynnag, hyderir y gellir gwella rheolaeth o ochr yr awdurdod Harbwr drwy benodiad swyddog i gynorthwyo'r Harbwr Feistr ac a fydd yn weithredol ar y dwr yn ystod cyfnod prif wyliau'r haf.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cadeirydd ynglyn a pha gamau gall yr Harbwr Feistr gymryd i ymdrin a rheolaeth y badau dwr personol, eglurwyd bod gan yr Harbwr Feistr bwerau statudol ond nad oedd ganddo'r hawl i roi dirwy ar y pryd ond pe byddir yn cadw tystiolaeth o unrhyw gam ddefnydd o'r rheolau, gellir eu herlyn. Nodwyd ymhellach bod yr Heddlu yn rhoi cefnogaeth dda mewn achosion o'r fath.

**(c) Cynnal a Chadw**

Adroddodd Mr Desmond George ei fod yn parhau i drafod dyluniad winsh pwrpasol ar gyfer defnydd gan gychod sy'n cael eu lansio ac yn glanio wrth y Clwb Hwylio. Diolchwyd iddo gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ac unwaith y daw unrhyw wybodaeth i law y byddir yn ei anfon i'r peiriannydd fel bo modd ystyried y posibilrwydd fel rhan o gynllun ehangach wal y cei. Y dewis gorau fyddai i'r winsh fod wedi ei leoli mewn un man ac ddim yn rhan o gerbyd neu winsh symudol.

**(ch) Symud Tywod**

Adroddwyd bod y gwaith o symud y tywod wedi ei gwblhau dros yr wythnosau diwethaf ac yr un pryd bod gwaith yn mynd rhagddo i glirio tywod oddi ar y maes parcio a'r promenad.

Mewn ymateb i bryder amlygwyd ynglyn a thywod, amlygodd Mr Paul Fowles y canlynol:

Drwy ymestyn y twyni o 4 metr hyd at risiau maes parcio amddiffynfa'r môr a chau'r llifglawdd bach sy'n rhedeg tu ôl i'r bryniau tywod, sy'n gorlifo bob Llanw Mawr, byddai hyn yn caniatáu i system y twyni i symud tua'r dwyrain a'r de ddwyrain heb orfod cael dyfeisiau rheoli fel ffens byst. Er hynny, byddai grwynau traeth ar ogwydd o gymorth i ddargyfeirio'r tywod yn y tymor byr i ffwrdd o'r maes parcio a gorsaf y bad achub, hyd nes fo'r twyni wedi sefydlu yn y pen o'r traeth sy'n agosach at y clwb hwylio.

Hyd at ddiwedd y 1960au, cyn i'r maes parcio gael ei adeiladu, roedd grîn bach a thwyni tywod yn rhedeg ar hyd blaen traeth y pentref hyd at Hen Siediau Du OBSS, gyda'r lein rheilffordd gysylltiedig. Roedd unrhyw dywod a chwythwyd gan y gwynt yn cael ei atal gan y twyni a'r morhesg cyn mynd i'r pentref neu fynd dros trac y trên. Roedd llawer o blaid peirianneg i'r gwrthwyneb a chadw'r traeth fel yr oedd heb yr angen am wariant mawr.

Addawodd y byddai'n anfon adroddiad oedd yn y cyfeirio at engreifftiau fel yr uchod i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fel mater o ddiddordeb.

Nododd y Cadeirydd bod llawer o dywod wedi chwythu eleni a phryderai am y dyfodol yn enwedig gan mai hon fydd y flwyddyn olaf i gyllid fod ar gael ar gyfer ei glirio.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi'r uchod.**

**(b) Gofyn i'r Swyddog Morworol a Pharciau Gwledig anfon llythyr ar ran y Pwyllgor Ymgynghorol i Gwmni Brodyr Jones i gyfleu eu diolch am y gwaith a gyflawnwyd ganddynt i symud y tywod.**

3. **ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL**

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol, Mr Barry Davies ar weithgareddau harbwr Aberdyfi gyda chyfeiriad penodol at y canlynol:-

**(A) Cod Diogelwch Harbyrau**

Atgoffwyd yr Aelodau bod elfennau diogelwch ac asesiadu risg yn bwysig iawn i'r Gwasanaeth Harbwr a bod y cod diogelwch yn berchen i ddefnyddwyr yr Harbwr ac Aelodau'r Pwyllgor a bod y staff yr Harbwr yn ddibynnol arnynt i gyflwyno sylwadau. Nodwyd bod y Cod Diogelwch yn ddogfen fyw a gwirfoddol. Fe fyddir yn derbyn awdit gan Adran Polisi, Asiantaeth Gwylwyr y Glannau i drafod y ffordd ymlaen ac i dderbyn adborth gan Adran Polisi Asiantaeth Gwylwyr y Glannau. Nodwyd bwysigrwydd y dylai'r cod gydymffurfio a gofynion yr harbwr yn enwedig harbyrau llai fel sydd yng Ngwynedd ac nad oedd yn mynd yn rhy fiwrocrataidd.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(B) Mordwyo ac Angorfeydd**

Adroddwyd bod y cymorthyddion mordwyo wedi gweithio'n dda tra'n derbyn bod y Sianel wedi newid. Roedd y contractwyr yn gweithio ym Mhorthmadog ar hyn o bryd ond yn symud i Aberdyfi yn y dyddiau nesaf.

Cyfeiriwyd at 4 rhybudd:

- Golau ar y bwi Fairway ddim yn gweithio
- Bwi Rhif 1 a 3 oddi ar y safle
- Bwi Rhif 2 wedi symud oddi ar y safle

Rhagdybir na fyddai llawer o gychod yn ymweld a'r Harbwr yn ystod Gwyliau'r Pasg gan fod y gwyliau yn fuan eleni. Nodwyd bod y golau melyn wedi ei osod ar bwi mewnol yn yr Harbwr. Nodwyd yn ychwanegol bod cwch yr Harbwr wedi ei lansio ar gyfer y tymor.

Mewn ymateb i'r uchod, nododd Aelod ei bod yn glir lle mae'r Harbwr yn dechrau a dymuniad Clwb Cychod Aberdyfi ydoedd cyfleu eu diolch i'r Harbwr Feistr am ei waith.

Nodwyd ymhellach y byddai bwiai parth y traeth yn ei le erbyn diwedd mis Mai. Derbyniwyd archwiliadau gan Ty'r Drindod a chynhaliwyd cyfarfod yn ddiweddar lle mynegwyd pryder ynglyn a'r elfen weinyddol o'r ddarpariaeth symud bwiau.

Cadarnhawyd y byddai'r angorfeydd yn cael eu gosod yn yr wythnosau nesaf gan y contractwr lleol, a phwysleiswyd yr angen i bob perchennog angorfa fod yn berchen ar y dystysgrif priodol. Cadarnhawyd ymhellach bod y tystysgrifau priodol mewn trefn gan y contractwr yn unol a chanllawiau Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).

Mewn ymateb i bryder ynglyn a newidiadau yn y sianel ac o ganlyniad y lleihad yn y gofod sydd ar gael i gychod fedru angori, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n rhaid derbyn na fyddai rhai cychod yn gallu mynd yn ol i'r un lleoliad ac y byddir yn gorfod addasu'r lleoliad i'r math o gwch yn nhermau hyd a dyfnder, a.y.b.

Gofynnwyd a fyddai modd i'r Harbwr Feistr dynnu lluniau fel bo modd cymharu fel mae'r blynyddoedd yn mynd heibio. Mewn ymateb, eglurwyd bod cwmni Mark Roberts yn gwneud archwiliadau i'r Gwasanaeth Morwrol yn hyn o beth.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(C) Cyllidebau Harbyrau**

(i) Cyflwynwyd crynodeb o'r sefyllfa ariannol i'r Aelodau hyd at 29 Chwefror 2016 ac fe dywyswyd hwy drwy'r wybodaeth gan nodi'r pwyntiau canlynol:

- bod tanwariant o £14,000 yng nghyllideb cyflogau
- bod £18,000 yng nghyllideb cynnal a chadw gan gofio bod £10,000 wedi ei drosglwyddo i Harbwr Aberdyfi o bennawd arall ers sawl blwyddyn bellach.
- Bod sefyllfa ariannol yn weddol iach gyda tharged incwm o £33,000, gyda £25,000 hyd yma a diffyg o £8,000

(ii) Mewn ymateb i gwestiwn ynglyn a nifer o gychod sydd wedi cofrestru, nododd yr Harbwr Feistr y rhagwelir y bydd 77 gyda 70 eisoes wedi cwblhau'r ffurflenni cofrestru perthnasol cyn diwedd Chwefror. Nodwyd mai 6 cwch sydd ddim yn dod yn ôl.

(iii) O safbwynt ffioedd, nodwyd cynnydd chwyddiant o 1%.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(D) Gwelliannau**

**(i) Ansawdd Dŵr Ymdrochi**

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod ansawdd y dwr ymdrochi yn bwysig iawn i Aberdyfi o ystyried y nifer o weithgareddau sydd ar gael. Tynnwyd sylw at y pwyntiau canlynol:

- Pwysigrwydd i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol beth yw ansawdd y dwr ymdrochi
- Bod safon y dwr ymdrochi wedi cyrraedd safon derbyniol flwyddyn yma a hyderir na fyddir o ansawdd gwael eto i'r dyfodol
- Cyflwynwyd cais i ddynodi Traeth y Fynwent ac fe dderbyniwyd cadarnhad gan Lywodraeth Cymru ei fod yn cydymffurfio a'r gofynion perthnasol o dan gyfarwyddyd dwr ymdrochi yn Aberdyfi

Yn deillio o'r uchod, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol o'r Pwyllgor:

(a) Bod y faner goch yn chwifio ar hyd yr amser ac oherwydd hyn yn lleihau ei phwrpas ac o ganlyniad nid yw unigolion yn cymryd sylw o'r peryglon i ymdrochi.
(b) Bod y faner goch yn gydnabyddedig i rybuddio unigolion y byddent yn ymdrochi ar risg eu hunain
(c) A fyddai gosod arwyddion wrth ymyl y faner yn fwy priodol?
(d) Mynegwyd pryder enfawr gan y Cadeirydd ynglyn a dynodi Traeth y Fynwent yn draeth ar gyfer ymdrochi yn enwedig gan bod y traeth allan o'r golwg. Nodwyd ymhellach bod y Parc Cenedlaethol wedi mynedi pryder yn ogystal oherwydd lleoliad cyfleusterau addas.
(e) Os yw wedi cael ei ddynodi, nodwyd bwysigrwydd i arddangos y risgiau i'r cyhoedd o'r cerrynt terfol sydd yn y lleoliad yma.

Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei fod wedi cynnal trafodaethau gyda Chyngor Tref Tywyn ynglyn a mater tebyg ar draeth Tywyn ac os oes potensial i wneud unrhyw beth arall i dynnu sylw at y risgiau o'r cerrynt terfol, byddir yn ei groesawu ond pwysleiswyd yr angen i ddiogelu'r cyhoedd yn enwedig o gofio bod cyflymder y llanw yn 6-8 (knot) milltir fôr ar draeth pentref Aberdyfi. Fodd bynnag, tra'n derbyn y sylwadau bod yn rhaid i unigolion gymryd cyfrifoldeb dros eu hunain hefyd. Tynnwyd y faner goch i lawr

yn gyfan gwbl yn Abermaw ond bu'n rhaid ei rhoi yn ôl ar gais y Cyngor Tref oherwydd pryder o'r risg i'r cyhoedd.

Esboniodd Aelod bod y Bad Achub eu bod yn ystyried diogelwch yn ddifrifol bwysig ac yn awyddus i leihau unrhyw risg posibl i'r cyhoedd.

Roedd yr RNLI wedi bod yn trafod materion o safbwynt eu gwaith achub ac un o'r prif faterion oedd sut i ymdrin gyda phroblemau'r llanw, y faner goch a hefyd sut i wneud pobl yn ymwybodol o gerrynt terfol a beth i'w wneud. Roedd yr RNLI yn hapus i weithio gydag unigolion, Cyngor Gwynedd a Chynghorau Cymuned i lunio arwyddion priodol, i roi mwy o awdurdod i'r wybodaeth ac i'w gosod mewn mannau priodol. O safbwynt Traeth y Fynwent, oedd hi'n iawn annog pobl i fynd yno i nofio gan fod yna faterion oedd yn rhaid delio gyda hwy yno. Byddai yn briodol gosod arwyddion ar y llwybr pren yn Aberdyfi gyda ychydig mwy o wybodaeth am y llanw. Roedd llawer o'r arwyddion ar draethau ble roedd achubwyr bywyd a nid oes gennym y cyfleusterau yma yn Nhywyn/Aberdyfi. Roedd yr RNLI yn hapus i drafod y mater gyda Chyngor Tref Tywyn a Chyngor Cymuned Aberdyfi i ddatrys hyn ac i gael arwyddion priodol a gallai'r RNLI dalu am fwyafrif y gwaith.

Croesawir trafodaethau a chydweithio gyda'r RNLI yn arbennig i ddatrys ymwybyddiaeth unigolion o'r hyn a olygir drwy chwifio'r faner goch. Rhaid bod yn wyliadwrus o'r trefniadau yn enwedig pan nad oes unigolyn cymwysedig ar draethau'r Sir i awdurdodi pryd a phan fydd yn rhaid chwifio'r faner goch.

**Penderfynwyd: Derbyn cynnig y Bad Achub i gynnal trafodaethau pellach gyda Chyngor Tref Tywyn, Cyngor Cymuned Aberdyfi a'r swyddogion priodol o'r Gwasanaeth Morwrol, ar y ffordd orau ymlaen i ddatrys yr uchod.**

**(ii) Rheolaeth Traeth 2016**

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig o safbwynt y toriadau ariannol a wynebai'r Cyngor, bod y gwasanaeth Harbwr yn cael ei warchod ond penderfynwyd gwneud toriadau i'r gyllideb traethau drwy reoli traethau Baner Las a Baner Werdd yn unig. Golygai hyn na fyddai goruchwyliaeth traeth yn Aberdyfi y flwyddyn hon ac y byddai'n ofynnol i staff yr Harbwr ymdopi a hyn.

Mewn ymateb, nododd y Cadeirydd bod pob gwasanaeth yn gorfod gwneud arbedion ac y byddai'n rhaid gwneud y gorau o'r gwasanaethau hynny sydd ar gael.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(iii) Wal y Cei**

Cyflwynwyd i'r Aelodau yn ystod y cyfarfod adroddiad, er gwybodaeth, gan Ymgynghoriaeth Gwynedd ar gyflwr wal y cei ac roedd yn ymddangos bod hyd at 6 mlynedd ar ôl yn oes wal y cei. Esboniodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned y cyflwynwyd cais i'r Parc Cenedlaethol ond bod oedi wedi digwydd gan i'r Parc ofyn am wybodaeth pellach yn benodol am yr agweddau amgylcheddol o'r cynllun ac fe fydd angen comisynu gwaith i baratoi'r wybodaeth. Er bod hyn yn siomedig, gellid dadlau bod hawliau gan yr awdurdod harbwr i fynd ymlaen a'r cynllun beth bynnag.

O safbwynt ariannu'r cynllun, fel rhan o gais Cyngor Gwynedd, bod cei Aberdyfi wedi ei gynnwys fel blaenoriaeth ac roedd trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru. Un o brif ofynion y rhaglen ydoedd adroddiad gwerthuso prosiect (project appraisal report) ar gyfer pob cais. Ei bwrpas yw dangos bod yr holl opsiynau wedi cael ystyriaeth a bod y cynllun yn cynnig gwerth am arian.

Derbyniwyd newyddion cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru eu bod yn fodlon ariannu yr adroddiad gwerthuso prosiect yn y swm o oddeutu £20,000 o Gyllideb Arloesol Arfordirol (Coastal Innovative Fund). Croesawyd y cynnig anffurfiol ac disgwylir am gadarnhad ffurfiol dros y dyddiau nesaf. Pwysleiswyd yr angen i'r adroddiad gwerthuso prosiect gydymffurfiol â'r cais cynllunio. Bwriedir symud ymlaen gyda'r cais cynllunio beth bynnag oherwydd y byddai'n anodd rhagweld y byddai'r adroddiad gwerthuso prosiect yn adnabod opsiwn arall.

O safbwynt rhaglen ariannol, nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod grantiau hyd at 80% o'r gost ar gael ond byddai angen darganfod 20/25% sy'n weddill. O ran y cyfnod debygol, pe byddai'r cais cynllunio yn llwyddiannus, byddai 2018 yn darged ymarferol.

Yng nghyd-destun yr adroddiad gerbron, bod y cynnwys yn rhoi peth gwybodaeth am y risgiau tymor byr, bod 9 mlynedd ar ôl o oes i wal y cei. Serch hynny, pwysleiswyd bod y cei yn dod i ddiwedd ei oes, a bod yn rhaid gwneud datrysiad.

Nododd Aelod bwysigrwydd i nodi bod wal y cei, nid yn unig yn gwarchod yr harbwr, ond hefyd pentref Aberdyfi ei hun.

**Penderfynwyd:** **(a) Cymeradwyo, yn unfrydol, i gefnogi'r cais ac i symud ymlaen yn ddi-oed gyda'r camau angenrheidiol ynghlwm i'r cais.**

**(b) Gofyn i'r Gwasanaeth Morwrol gylchredeg gwybodaeth er sylw defnyddwyr yr Harbwr fel bo modd iddynt roi adborth i'r cynllun.**

**(c) Y byddir yn cyflwyno adroddiad cynnydd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol hwn.**

**(iv) Datblygiad Adeilad y Bad Achub**

Adroddwyd bod y datblygiad uchod yn mynd rhagddo gyda rhagolygon i'w gwblhau cyn gŵyl y banc ym mis Mai. Diolchwyd i bawb am y cydweithrediad a'u cefnogaeth yn ystod y datblygiad ac fe fyddir yn parhau i gydweithio gyda'r Harbwr Feistr.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(v) Cais Cynllunio – Canolfan Ymwelwyr, Aberdyfi**

Cyfeiriwyd at gais cynllunio gan Barc Cenedlaethol Eryri i wella adeilad presennol Canolfan Croeso Aberdyfi yn ogystal a rhannol newid defnydd i A3 er mwyn rhoi cyfle i ddatblygu rhan o'r adeilad ar gyfer mentrau busnes er mwyn cynhyrchu incwm ychwanegol.

Nodwyd y byddai'n ofynnol cadw rheolaeth ar y datblygiad gan na fyddir yn awyddus i weld byrddau / cadeiriau fel rhan o'r caffi arfaethedig yn cael eu gosod ar draws y cei, yn enwedig o safbwynt iechyd a diogelwch.

Hyderir y bydd y Parc Cenedlaethol yn cysylltu gyda'r swyddogion perthnasol pan yn penodi contractwyr, er mwyn medru trafod trefniadaeth drwy'r mynedfa, cadw rheolaeth, a.y.b.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(a) Awgrymwyd a fyddai gwell defnydd o hanner yr adeilad yn fwy adeiladol ar gyfer lleoliad i'r pysgotwyr masnachol fedru prosesu, gweithredu arddangosfa bychan o fywyd môr lleol. Nodwyd ymhellach bod Harbwr Aberdyfi yn harbwr gweithredol traddodiadol a'i fod yn anodd i'r pysgotwyr fedru gwneud bywiolaeth ac fe fyddai cael lleoliad pwrpasol iddynt yn ddelfrydol. Apeliwyd ar y Pwyllgor Ymgynghorol i gysylltu a Mr Huw Evans, Cynrychiolydd Cymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion os oes ganddynt unrhyw awgrymiadau o safbwynt lleoliadau addas ar gyfer menter o'r fath.

(b) O safbwynt y Gwasanaeth Morwrol, nodwyd bod trafodaethau wedi eu cynnal hefo'r pysgotwyr masnachol i wyntyllu opsiynau ar gyfer cael llecyn pwrpasol.

(c) Bod newid y defnydd yn fodd i gadw'r adeilad fel Canolfan Croeso

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(vi) Rheolaeth Gwastraff Compownd Aberdyfi**

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig iddo ymweld a'r safle uchod a phryderir am y gwastraff sydd oddi fewn i'r compownd sydd yn llygru'r safle. Amcangyfrifir cost o oddeutu £6-£9,000 i glirio'r compownd a hyderir y gellir gwneud hyn cyn mis Mai. Ymysg y gwastraff sydd oddi fewn y safle, roedd deunydd pysgota sydd heb fod oddi ar y safle ers blynyddoedd lawer. Apeliwyd i Mr Huw Evans drafod gyda physgotwyr i ddwyn i'w sylw anfodlonrwydd y Gwasanaeth Morwrol a'r angen i glirio'r safle yn ddi oed. Rhybuddwyd byddai unrhyw offer di ddefnydd yn cael ei waredu oni bai fod yr offer wedi ei adnabod fel denydd angen ei gadw gan y pysgotwyr.

Adroddodd Mr Desmond George bod gan y Clwb Hwylio offer yn y compownd ac y byddai'r Clwb yn barod i gydymffurfio ac i gyfrannu tuag at peth o'r gost i glirio eu heiddo oddi yno. Addawodd y byddai'n ysgrifennu at aelodau'r Clwb Hwylio i drefnu hyn.

Awgrymodd y Cadeirydd a fyddai'n syniad i ail-godi ffens bwrpasol a giatiau i rwystro unigolion daflu gwastraff i'r safle fel y gellir cael gwell rheolaeth yno.

Mewn ymateb i ymholiad ynglyn a dynodiad y safle, cadarnhawyd mai Cyngor Gwynedd oedd yn gyfrifol am y safle.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod a chymerdwyo i gynrychiolwyr y mudiadau perthnasol apelio i'w haelodau gynorthwyo drwy glirio'r safle yn ddi-oed.**

**(DD) Trefniadau Staff Gwanwyn / Haf 2016**

(i) Hysbysebwyd am swydd Cymhorthydd Harbwr i Aberdyfi ac roedd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn ffyddiog y byddai penodiad wedi ei wneud ac yn weithredol erbyn cannol mis Ebrill.

(ii) O safbwynt y rhaglen waith cynnal a chadw, bwriedir

- rhoi golau ar y bwi Fairway
- creu llecyn i gadw'r ôl-gerbyd
- trwsio'r slabiau ar y cei
- trwsio'r llwybr pren

(iii) Nododd Aelod bwysigrwydd i atgyweirio'r llwybr pren oherwydd pe na fyddai'n bodoli, byddai bwlch i'r môr ac ni fyddai'r cwrs golff yn bodoli ychwaith.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(E) Ymgynghoriad Cyfoeth Naturiol Cymru**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, lythyr a dderbyniwyd dyddiedig 19 Ionawr 2016 gan Cyfoeth Naturiol Cymru ynglyn ag Ardaloedd Cadwraeth Arbennig arfaethedig ar gyfer llamhidyddion yr harbwr ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig arfaethedig newydd ac estynedig ar gyfer adar y môr.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a nodi'r uchod.**

## 4. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL

Mewn ymateb i ymholiad ynglyn a chlirio'r ôl-gerbydau ger y promenad sicrhaodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddir o'r 1 Ebrill 2016 yn codi tâl ar y perchnogion ac fe fydd trwydded ar gael ar gyfer pob safle.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a nodi'r uchod.**

## 5. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

**Penderfynwyd:** **Gofyn i'r Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu bennu dyddiad yn nechrau Tachwedd ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol yn hytrach na 11 Hydref 2016 fel gymeradwywyd gan y Cyngor llawn yn ddiweddar, gan bod y dyddiad hwn braidd yn fuan yn y tymor.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 a.m. a daeth i ben am 12.30 p.m.

**CADEIRYDD.**